**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.14.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**15 Rhagfyr 2025**

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 ('y Cod') yn rhoi arweiniad ynglŷn â gweithredu Rhan 6 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA 2000') ar gyfer trydydd partïon yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys yn ystod cyfnod rheoleiddiedig cyfunol lle y bo'n gymwys.

2. Mae'r Cod yn nodi'r canlynol:

    - beth yw ymgyrchydd nad yw'n blaid
    - beth yw ymgyrchu di-blaid
    - y mathau o dreuliau sy'n dreuliau cymwys
    - yr amgylchiadau lle mae treuliau i'w hystyried, neu ddim i'w hystyried at ddibenion hyrwyddo neu gaffael llwyddiant etholiadol
    - y mathau o wariant sy'n cael eu trin fel gwariant neu roddion tybiannol a reolir
    - yr amgylchiadau a fydd yn cael eu hystyried yn ymgyrchu ar y cyd
    - beth yw gwariant a reolir wedi'i dargedu a phryd y mae'n berthnasol
    - y gofynion cofnodi ac adrodd (gan gynnwys ar gyfer cyfnodau rheoleiddiedig cyfunol).

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

3. Mae'r fersiwn hon o'r Cod yn cynnwys diwygiadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol i ymdrin â materion a nodwyd yn y fersiwn o'r Cod a osodwyd ar 13 Hydref 2025[1] ac a dynnwyd yn ôl wedyn.

**Y cefndir deddfwriaethol**

4. Mae dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol o dan adran 100A(1A) o PPERA 2000 i lunio Cod Ymarfer sy'n rhoi arweiniad ar weithredu Rhan 6 o PPERA 2000 ar gyfer trydydd partïon yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys yn ystod cyfnod rheoleiddiedig cyfunol lle y bo'n gymwys.

5. Lluniwyd y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol ac fe'i cyflwynwyd i ddechrau i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ym mis Hydref. Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod drafft gydag addasiadau, ac, ar yr un pryd â'r Cod, gwnaethant osod gerbron y Senedd ddatganiad o'r rhesymau dros wneud yr addasiadau hynny. Tynnwyd y fersiwn hon yn ôl yn ddiweddarach, ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei hystyried.

[1] SL(6)657 - Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 - TYNNWYD YN ÔL

6. Gosodir y Cod drafft diwygiedig hwn gerbron y Senedd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai o dan adran 100(3) o PPERA 2000. Mae'r Cod yn ymgorffori diwygiadau ac mae wedi bod yn destun gwiriadau cyfwerthedd ychwanegol. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod diwygiedig heb ei addasu, felly nid oes angen Datganiad o Resymau.

7. Bydd y Cod drafft yn dilyn y weithdrefn negyddol ddrafft. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod i'w osod, bydd y Cod yn cael ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru, yn cael ei ddwyn i rym gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn, ac yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

8. Mae gwariant ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, cyn etholiad i'r Senedd, yn cael ei reoleiddio. Fel arfer, y cyfnod rheoleiddiedig hwn yw'r cyfnod o bedwar mis hyd at a chan gynnwys diwrnod y pôl.

9. Mae'r cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 yn dechrau ar 7 Ionawr 2026, ac yn dod i ben ar ddiwrnod y pôl, sef 7 Mai 2026.

10. Mae'r Cod yn gymwys i etholiadau i'r Senedd. Mae'n rhoi arweiniad ynglŷn â gweithredu Rhan 6 o PPERA 2000 ar gyfer trydydd partïon yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys yn ystod cyfnod rheoleiddiedig cyfunol lle y bo'n gymwys.

11. Mae adran 100A(5A) o PPERA 2000 yn darparu amddiffyniad i ymgyrchydd nad yw'n blaid sydd wedi'i gyhuddo o drosedd o dan Ran 6 o PPERA 2000. Mae'n amddiffyniad i ymgyrchydd nad yw'n blaid ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'r Cod wrth bennu a oedd ei weithgarwch ymgyrchu wedi'i reoleiddio.

12. Dim ond os yw wedi'i restru o dan adran 88(2) o PPERA 2000 fel un sy'n gymwys i roi hysbysiad i'r Comisiwn Etholiadol y gall ymgyrchydd nad yw'n blaid wario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu rheoleiddiedig. Mae'n drosedd gwario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu rheoleiddiedig os nad yw'r ymgyrchydd nad yw'n blaid wedi'i restru yn adran 88(2) fel un sy'n gymwys i roi hysbysiad i'r Comisiwn Etholiadol.

13. Rhaid i ymgyrchwyr cymwys nad ydynt yn bleidiau sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar weithgarwch ymgyrchu rheoleiddiedig gyflwyno hysbysiad i'r Comisiwn Etholiadol ac ar ôl hynny byddant yn ymddangos ar y gofrestr o hysbysiadau. Mae'n drosedd gwario mwy na £10,000 heb gyflwyno hysbysiad o'r fath.

14. Unwaith y bydd ymgyrchydd nad yw'n blaid yn ymddangos ar y gofrestr hysbysiadau, ar ôl cyflwyno hysbysiad, bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyfeirio ato fel 'ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid'. Ar ôl cyflwyno hysbysiad i'r Comisiwn Etholiadol, rhaid i'r ymgyrchydd cofrestredig nad

yw'n blaid benodi 'person cyfrifol'. Mae'r person cyfrifol yn gyfreithiol gyfrifol am gydymffurfio â PPERA 2000.

15. Mae gwariant ar y gweithgarwch a ganlyn yn cael ei reoleiddio (i) os yw'n digwydd mewn perthynas ag ymgyrch gyffredinol yn ystod cyfnod rheoleiddiedig a (ii) os yw'n bodloni'r prawf diben:
    - cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau a drefnir gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid
    - cludiant mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch
    - llunio neu gyhoeddi deunydd ymgyrchu sy'n cael ei ddarparu i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i unrhyw ran o'r cyhoedd
    - canfasio ac ymchwil marchnad sy'n ceisio barn neu wybodaeth gan aelodau'r cyhoedd
    - ralïau cyhoeddus neu ddigwyddiadau cyhoeddus eraill

16. Mae p'un a ellir yn rhesymol ystyried bod gweithgarwch yn weithgarwch sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol yn cael ei adnabod yn gyffredin fel y 'prawf diben'. Rhaid cymhwyso'r prawf diben ar yr adeg, neu yn achos cyfnod rheoleiddiedig ôl-weithredol fel pe bai ar yr adeg, yr ysgwyddir y gwariant ar y gweithgarwch. Os cafodd y gwariant ei ysgwyddo cyn y cyfnod rheoleiddiedig ond bod y gweithgarwch yn digwydd yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig, rhaid cymhwyso'r prawf diben ar yr adeg y mae'r gweithgarwch yn digwydd.

17. Rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar weithgarwch ymgyrchu rheoleiddiedig gofnodi eu gwariant (gan gynnwys gwariant tybiannol), ynghyd ag unrhyw roddion, ac adrodd arnynt i'r Comisiwn Etholiadol.

**Ymgynghori**

18. Lluniwyd y Cod gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl ymgynghori â phersonau a chyrff sydd â buddiant, gan gynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd. Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau'r Senedd | Y Comisiwn Etholiadol

19. Ar ôl ymgynghori, ychwanegwyd troednodiadau a chafodd rhannau o'r adran ar y cyfnod rheoleiddiedig eu haileirio i wneud yr iaith yn gliriach ac i gyd-fynd â diwygiadau tebyg i God Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau yr Alban.

20. Gosododd Llywodraeth Cymru y Cod gerbron y Senedd, ar ran y Comisiwn Etholiadol. Ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ystyried y Cod, fe'i tynnwyd yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Yna, gwnaeth y Comisiwn Etholiadol nifer o fân newidiadau technegol a chyflwyniadol i ymdrin â phwyntiau adrodd y Pwyllgor. Cefnogodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn Etholiadol i wneud hyn a chomisiynodd wiriadau cyfwerthedd allanol i ymdrin â phwyntiau a oedd yn ymwneud â chyfwerthedd y fersiynau

Cymraeg a Saesneg o'r Cod. Nid oedd y newidiadau hyn yn effeithio ar ddiben nac effaith arfaethedig y Cod.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

21. Caiff is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol y mae rhaid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ei chyfer ei diffinio yn adran 76(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ac y mae'n ofynnol iddi gael ei gosod gerbron y Senedd.

22. Lluniwyd y Cod gan y Comisiwn Etholiadol o dan adran 100A(1A) o PPERA 2000 ac nid yw wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol. Yn hynny o beth, nid yw'r Cod yn bodloni meini prawf adran 76 ac felly nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol.